**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 10) 2026**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad yr Ysgrifennydd Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 10) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**10 Chwefror 2026**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 10) 2026 ('Rheoliadau') yn gwneud safonau'n benodol gymwys i berson sydd wedi'i gynnwys o fewn y rhestr o landlordiaid cymdeithasol a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan adran 1(1) o Ddeddf Tai 1996(3) ('corff'). Gelwir y personau hyn hefyd yn Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ('LCCiaid'). Mae rhestr lawn o'r LCCiaid i'w gweld ar gofrestr Gweinidogion Cymru o LCCiaid: https://www.llyw.cymru/landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig.

1.2 Mae'r Rheoliadau yn pennu safonau cyflenwi gwasanaethau; safonau llunio polisi; safonau gweithredu; safonau cadw cofnodion a safonau atodol.

1.3 Bydd y Rheoliadau yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') i roi hysbysiad cydymffurfio i'r cyrff hynny, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio ag un neu ragor o'r safonau yn y Rheoliadau.

1.4 Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 ('Rheoliadau Rhif 2') drwy ychwanegu Cartrefi Cymunedol Cymru at Atodlen 6 i Rheoliadau Rhif 2.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Rhifau *yn y Rheoliadau*

Mae'r Rheoliadau'n defnyddio'r wyddor Gymraeg, h.y. (a), (b), (c), (ch) ac ati. Mae'r arddull hon yn wahanol i'r arddull rhifo arferol a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru. Fel arfer, defnyddir yr wyddor Saesneg yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg. Yn yr achos hwn, oherwydd natur a phwnc y Rheoliadau, defnyddiwyd y wyddor Gymraeg yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg er mwyn sicrhau cysondeb ac osgoi unrhyw bosibilrwydd o ddryswch wrth groesgyfeirio. Defnyddiwyd yr un arddull yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (SI 2015/996) a Rheoliadau dilynol yn pennu Safonau'r Gymraeg.

2.2 Enw'r *Rheoliadau*

Teitl y Rheoliadau yw Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 10) 2026. Os cânt sêl bendith y Senedd, dyma fydd y 9fed set o Reoliadau Safonau'r Gymraeg i gael eu gwneud[1]. Bwriedir gwneud yr holl Reoliadau a wneir o dan adran 26 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') yn un gyfres barhaus, yn yr un modd â gorchmynion cychwyn. Y farn yw y bydd hyn yn golygu bod y Rheoliadau'n haws i'w trin ac i gyfeirio atynt, yn enwedig pan fydd hysbysiadau cydymffurfio'n cyfeirio at Reoliadau.

---

[1]Cafodd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) 2016 eu gwrthod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd.

2.3 Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 ('y Ddeddf')
Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gwblhau adolygiad o safonau penodol a bennir o dan adran 26 o'r Mesur o fewn 12 mis ar ôl cyhoeddi Cod ar ddisgrifio gallu yn y Gymraeg ('y Cod'). Pwrpas yr adolygiad fydd penderfynu a oes angen diwygio safonau penodol er mwyn hwyluso cyrraedd targedau a osodwyd mewn Strategaeth y Gymraeg ddiwygiedig neu i adlewyrchu'r Cod a lunnir o dan y Ddeddf.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Caiff y Rheoliadau eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan adrannau 26, 27, 39 a 150(5) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'). Mae adran 26 y Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau drwy reoliadau. Mae adran 27 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau gwahanol ar gyfer ymddygiadau gwahanol. Mae hefyd yn eu galluogi i bennu un safon neu nifer o safonau ar gyfer ymddygiad penodol.

3.2 Cyn y gall y Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i berson yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon, rhaid i'r safon honno fod yn benodol gymwys i'r person hwnnw (adran 25). Mae adran 39 yn darparu bod safon yn benodol gymwys i berson pan fydd Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw yn ymwneud â'r safon honno. Mae adran 105(5) yn darparu bod unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn cynnwys pŵer i wneud y cyfryw ddarpariaethau trosiannol, darfodol, canlyniadol ac arbed, darpariaethau cysylltiedig ac unrhyw ddarpariaethau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn angenrheidiol neu'n briodol.

3.3 Yn unol ag Adran 150(2) o'r Mesur, rhaid i'r Rheoliadau gael eu gosod gerbron Senedd Cymru, a'u cymeradwyo drwy benderfyniad ganddi.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Cadarnhaodd y Mesur statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer yr iaith. Cam allweddol i roi effaith i'r Mesur yw pennu safonau ac awdurdodi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i bersonau gydymffurfio â'r safonau hyn.

4.2 Mae adran 25 y Mesur yn darparu ei bod yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon a bennir gan Weinidogion Cymru, os bodlonir amodau penodol. Mae'r amodau hynny'n cynnwys y canlynol:

i. Bod safon yn benodol gymwys i'r person (h.y. mae Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw mewn perthynas â'r safon honno);
ii. Bod y Comisiynydd wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person;
iii. Bod yr hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i'r person gydymffurfio â'r safon; a

iv. Bod yr hysbysiad cydymffurfio mewn grym.

4.3 Mae'r Rheoliadau hyn yn galluogi'r Comisiynydd i osod safonau mewn hysbysiad cydymffurfio sy'n dod o fewn un neu ragor o'r categorïau canlynol:

- Mae **safonau cyflenwi gwasanaethau** yn ymwneud â darparu gwasanaethau er mwyn hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ac i sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Mae **safonau llunio polisi** yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar allu pobl i ddefnyddio'r iaith ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Mae **safonau gweithredu** yn ymwneud â'r defnydd mewnol o'r Gymraeg gan gyrff.
- Mae **safonau cadw cofnodion** yn ei gwneud yn ofynnol cadw cofnodion am rai o'r safonau eraill, ac am unrhyw gwynion a dderbynnir gan gorff.
- Mae **safonau atodol** yn delio â materion amrywiol, gan gynnwys llunio adroddiad blynyddol, trefniadau goruchwylio a darparu gwybodaeth i'r Comisiynydd.

4.4 Mae'r safonau wedi'u paratoi gyda'r nod o:

- gynyddu defnydd pobl o wasanaethau Cymraeg;
- gwella'r gwasanaethau Cymraeg y gall siaradwyr Cymraeg eu disgwyl gan gyrff;
- ei gwneud yn glir i gyrff yr hyn y mae angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg.

4.5 Ni fydd y Rheoliadau, pan fyddant yn dod i rym, yn cael effaith uniongyrchol ar gyrff ac ni fyddant, ar eu pennau eu hunain, yn creu hawliau i bobl. Bydd hynny ond yn digwydd pan fydd yr holl amodau yn adran 25 y Mesur wedi'u bodloni (gweler paragraff 4.2 uchod). Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau yn gam hanfodol yn fframwaith y Mesur a byddant yn galluogi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i gyrff gydymffurfio â'r safonau.

4.6 Mater i'r Comisiynydd fydd dewis pa safonau i'w gosod ar gyrff drwy hysbysiad cydymffurfio. Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r ystod o safonau y gellir eu gosod ar gorff. Efallai y bydd corff yn gorfod cydymffurfio â safon mewn rhai amgylchiadau yn unig ac nid mewn amgylchiadau eraill, yn dibynnu ar yr hyn a nodir yn ei hysbysiad cydymffurfio. Bydd yr hysbysiad cydymffurfio hefyd yn nodi erbyn pryd y mae'n ofynnol i'r corff gydymffurfio â safon.

4.7 Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r corff, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r corff yn unol ag adran 47 o'r Mesur (oni bai bod y Comisiynydd yn fodlon bod hynny wedi digwydd eisoes neu bod y corff wedi cael y cyfle i gyfrannu at ymgynghoriad ar y mater fel rhan o ymchwiliad safonau).

*Apelio*

4.8 Bydd cyrff yn gallu herio'r gofyniad i gydymffurfio â safon benodol ar sail p'un a yw'n rhesymol ac yn gymesur disgwyl iddynt wneud hynny. Yn y lle cyntaf, bydd corff yn gallu cyflwyno her i'r Comisiynydd. Os yw am herio penderfyniad y Comisiynydd, gellir apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, ac yna i'r Uchel Lys.

*Sancsiynau*

4.9 Y Comisiynydd fydd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r safonau hyn. Mewn achosion lle bydd y Comisiynydd yn penderfynu bod corff wedi methu â chydymffurfio â safon, gall gymryd camau gorfodi. O dan y Mesur, gall camau gorfodi amrywio o lunio argymhellion neu roi cyngor i gorff, i orfodi cosb sifil nad yw'n fwy na £5,000.

## 5. Risgiau os na chaiff y Rheoliadau eu gwneud

5.1 Os na chaiff y Rheoliadau arfaethedig eu gwneud, bydd y risgiau canlynol yn cael eu gwireddu:

- Methu â rhoi elfen allweddol o'r Mesur ar waith. Hynny yw, cyflwyno'r system safonau ac awdurdodi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio â safonau.
- Efallai na chaiff corff sy'n ymwneud â defnyddwyr y Gymraeg ei gynnwys yn y system safonau newydd.
- Bydd anghysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrff sydd yn yr un sectorau.
- Bydd pobl yn ansicr ynghylch pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg. Bydd yr ansicrwydd yn parhau os na chaiff y Rheoliadau eu gwneud i ganiatáu i safonau gael eu gwneud yn benodol gymwys i gyrff sy'n dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 6 i'r Mesur.
- Ni fydd cyrff sydd â Chynllun Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn trosglwyddo i'r system safonau. Os bydd y Cynlluniau Iaith yn parhau, ni fydd trefn orfodi ar gael os bydd corff yn methu â chydymffurfio â'i gynllun.

5.2 Ceir rhagor o wybodaeth am risgiau a manteision gweithredu'r safonau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol isod, ac mae'r risgiau o beidio â chyflwyno safonau wedi'u hamlinellu yn adran 'Opsiwn 1: gwneud dim' y manteision.

## 6. Ymgynghori

6.1 Cynhaliodd Gweinidogion Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg drafft ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ac ar gynnig i ychwanegu Cartrefi Cymunedol Cymru at Atodlen 6 i'r Mesur

ac yna at Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016, rhwng 24 Mehefin 2025 a 16 Medi 2025.

6.2 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys galwad ar gyrff sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau i gyflwyno data er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru baratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnwys yn Rhan 2 isod.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 7. Opsiynau

7.1 Gofynnwyd i'r cyrff a enwir yn adran 1(4) o'r Rheoliadau hyn (h.y. person sydd wedi ei gynnwys yn y rhestr o landlordiaid cymdeithasol sy'n cael ei chynnal gan Weinidogion Cymru o dan adran 1(1) o Ddeddf Tai 1996), a Chartrefi Cymunedol Cymru, gymryd rhan mewn ymarfer casglu data Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a ddosbarthwyd gyda'r ymgynghoriad ar Reoliadau drafft a gynhaliwyd rhwng 24 Mehefin ac 16 Medi 2025. Cafodd y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymarfer Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ymestyn yn ddiweddarach y tu hwnt i 16 Medi i annog mwy o ymatebion. Cyflwynwyd ymateb gan 17 corff oedd yn ddarostyngedig i'r cynigion.

7.2 Mae'r dadansoddiad canlynol o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r safonau yn seiliedig ar yr ymatebion a ddarparwyd gan yr 17 corff hynny.

### 8. Crynodeb o'r ymatebion

8.1 Gofynnwyd i'r cyrff ystyried manteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol ac ieithyddol o gydymffurfio â safonau. Roedd 16 o'r 17 corff a ymatebodd i ymarfer casglu data'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried bod manteision i'r corff o gydymffurfio â'r safonau'r Gymraeg arfaethedig; roedd 1 corff yn ystyried nad oedd unrhyw fanteision.

8.2 Gellir crynhoi'r ymatebion fel a ganlyn:

| **Math o fantais** | **Nifer y cyrff a nododd fantais** | **Disgrifiad o'r fantais o gydymffurfio â'r safonau arfaethedig a nodir gan gyrff** |
|---|---|---|
| Economaidd | 12 | • Gall gwell mynediad at denantiaid sy'n siarad Cymraeg gynyddu cyrhaeddiad a diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg gan arwain at fwy o foddhad ac ymddiriedaeth ymysg tenantiaid.<br>• Helpu i symleiddio cyfathrebu â chwsmeriaid Cymraeg eu hiaith a lleihau camddealltwriaeth ac ymdrechion dyblyg.<br>• Cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i siaradwyr Cymraeg, gan gyfrannu at gadw pobl mewn cymunedau Cymraeg ac yng Nghymru.<br>• Gall annog staff i ddatblygu sgiliau Cymraeg wella cyflogadwyedd, a helpu cadw staff, yn enwedig mewn cymunedau Cymraeg.<br>• Mae'n bosibl y bydd yn creu cyfleoedd newydd o ran cyllido a phartneriaethau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Gwneud cyrff yn fwy deniadol i ymgeiswyr medrus mewn marchnad lafur gystadleuol. |
| Cymdeithasol | 13 | • Hyrwyddo cyfle cyfartal drwy sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael yr un mynediad at wasanaethau a gwybodaeth â siaradwyr Saesneg.<br>• Helpu i feithrin perthnasoedd cryfach â chymunedau, yn dangos parch at hunaniaeth ddiwylliannol, yn meithrin ymddiriedaeth, ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn i gymunedau.<br>• Helpu i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, gan gyfrannu at gymunedau mwy cynhwysol a chysylltiedig.<br>• Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, a pharchu hawliau siaradwyr Cymraeg.<br>• Helpu i gryfhau hunaniaeth ddiwylliannol a chydlyniant cymdeithasol.<br>• Mae safonau gweithredu yn annog staff i ddefnyddio a dysgu Cymraeg, gan greu amgylchedd gwaith cynhwysol.<br>• Mae darpariaeth Gymraeg yn helpu i gadw pobl yn eu cymunedau, yn cefnogi swyddi lleol, ac yn mynd i'r afael ag anghydbwysedd oedran.<br>• Gall normaleiddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd helpu pobl i deimlo'n ymgysylltiedig, sy'n cyfrannu at lesiant.<br>• Mae'n bwysig bod darpariaeth Gymraeg ar gael i gefnogi grwpiau sy'n agored i niwed (e.e. yr henoed, pobl â dementia).<br>• Cynyddu gwelededd y Gymraeg yn y gymuned.<br>• Mae cyfathrebu gyda thenantiaid yn eu dewis iaith yn lleihau'r risg o gamddealltwriaeth a chwynion. |
| Amgylcheddol | 10 | • Mae gwarchod iaith yn cyfrannu at gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg gwledig, gan helpu i gynnal lefelau poblogaeth a gwasanaethau lleol.<br>• Annog mwy o ddefnydd o gyfathrebu digidol (gwefannau, apiau, mewnrwyd), gan leihau dibyniaeth ar ddeunyddiau argraffedig a lleihau ôl troed carbon. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Mae gwreiddio dwyieithrwydd o'r cychwyn yn osgoi costau dyblygu ac ailargraffu.<br>• Gall gwell cyfathrebu gefnogi gwell ymgysylltiad â mentrau amgylcheddol.<br>• Mae cefnogi cwmnïau, digwyddiadau a mentrau diwylliannol lleol yn Gymraeg yn lleihau'r angen am wasanaethau allanol, gan arwain at lai o deithio a lleihau effaith carbon.<br>• Mae defnyddio'r Gymraeg ar gyfer enwau lleoedd a mentrau cynaliadwyedd yn meithrin balchder lleol gan annog ymddygiadau sy'n fwy ymwybodol o'r amgylchedd.<br>• Mae cyfathrebu yn Gymraeg yn meithrin ymddiriedaeth, gan ei gwneud yn haws ymgysylltu â chymunedau ynghylch ailgylchu, inswleiddio ac effeithlonrwydd ynni. |
| Ieithyddol | 15 | • Dangos ymrwymiad i'r Gymraeg ac yn cefnogi nod Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>• Cefnogi'r gwaith o ddiogelu a thyfu'r Gymraeg, gan normaleiddio ei defnydd mewn gwasanaethau cyhoeddus ac wrth ryngweithio o ddydd i ddydd.<br>• Sicrhau bod yr iaith yn aros yn fyw ac yn berthnasol mewn bywyd bob dydd, addysg, gwaith a gwasanaethau cyhoeddus.<br>• Cyfrannu at drosglwyddo'r iaith rhwng y cenedlaethau.<br>• Annog mwy o bobl i ddysgu a defnyddio'r iaith.<br>• Creu cyfleoedd i staff ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, diogelu sefydliadau ar gyfer y dyfodol a gwella ansawdd gwasanaethau. |
| Arall | 10 | • Mae gwasanaethau dwyieithog yn gwella cyfathrebu, hygyrchedd a phrofiad cyffredinol cwsmeriaid.<br>• Mae bodloni Safonau'r Gymraeg yn sicrhau cysondeb â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.<br>• Mae cydymffurfio yn cryfhau hyder y cyhoedd ac yn atgyfnerthu atebolrwydd sefydliadol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan greu ymdeimlad o berthyn a chefnogi hunaniaeth gymunedol.<br>• Gosod cyrff fel rhai cynhwysol sy'n ymwybodol o ddiwylliant, gan wella enw da'r sector a chysylltiadau â rhanddeiliaid.<br>• Darparu fframwaith clir ar gyfer cyflenwi gwasanaethau'n ddwyieithog, yn lleihau'r risg o beidio â chydymffurfio, ac yn cefnogi gwelliant parhaus drwy brosesau strwythuredig. |

8.3 Darparwyd gwybodaeth am gost eu Cynllun Iaith Gymraeg presennol ac / neu amcangyfrif o'r gost o gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg gan 17 corff fydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 10) 2026.

## 9. Cywirdeb a defnyddioldeb y data ariannol

9.1 Er bod y cyrff a ymatebodd i ymarfer casglu data'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi gwneud ymdrech i asesu goblygiadau'r safonau, mae gennym rai pryderon ynghylch dibynadwyedd y data a gafwyd gan gyrff ac a yw'n rhoi sail i ni gynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol cadarn a chywir.

9.2 Roedd y rhan fwyaf o'r cyrff a gyflwynodd Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn gallu darparu data mewn perthynas â chostau darparu eu Cynllun Iaith Gymraeg presennol neu'u wasanaethau Cymraeg er y gallai costau a gyflwynir gan un corff fod yn gostau yn y dyfodol yn hytrach na chostau cyfredol cydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg. Mae darparu amcangyfrifon cywir ar gyfer cydymffurfiaeth â safonau'r iaith Gymraeg wedi profi'n fwy heriol i gyrff. Nododd sawl Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod cyrff yn disgwyl cynnydd mewn costau cyfieithu, TGCh a / neu gostau staffio ond mae rhai wedi methu â mesur y costau hynny.

9.3 Lle darparwyd amcangyfrif o'r costau, pwysleisiodd rhai cyrff yr anawsterau o ddarparu data cywir pan nad oeddent yn gwybod pa rai o'r safonau drafft y byddai disgwyl iddynt gydymffurfio â hwy, ac o dan ba amgylchiadau. Rydym yn cydnabod yr anhawster y mae hyn yn ei achosi o ran galluogi cyrff i amcangyfrif costau'n gywir. Nododd un corff, er enghraifft, ei fod wedi darparu amcangyfrif o'r costau ar gyfer cydymffurfio â phob un safon.

9.4 Pan fo dyletswyddau wedi eu gosod ar gyrff sy'n ddarostyngedig i Reoliadau safonau blaenorol, nid yw'r Comisiynydd wedi gosod pob safon o fewn Rheoliadau ar unrhyw gorff unigol. Mae'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd heb unrhyw amodau yn fach. Os caiff y Rheoliadau eu pasio gan y Senedd, bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei chasglu gan gyrff pan fydd y Comisiynydd yn ymgynghori ar hysbysiadau cydymffurfio drafft. Ar ôl cael hysbysiad cydymffurfio drafft, bydd gan gorff lawer mwy o ddealltwriaeth o union natur y dyletswyddau y mae'r Comisiynydd yn bwriadu eu gosod arnynt. Felly, bydd mewn gwell sefyllfa i ddarparu costau

cywir. Yna bydd asesiad effaith ariannol mwy cynhwysfawr yn bosibl, a byddai'n cael ei ystyried gan y Comisiynydd fel rhan o'i ystyriaeth o ba ddyletswyddau sy'n rhesymol a chymesur i'w gosod ar y cyrff unigol.

9.5 Mae cyrff hefyd wedi dehongli'r cwestiynau mewn ffyrdd gwahanol ac wedi cyflwyno eu costau mewn ffyrdd amrywiol. Er enghraifft, mae rhai cyrff wedi cynnwys y cyfan neu'r rhan fwyaf o'u costau amcangyfrifedig ar gyfer cydymffurfio â safonau o dan un categori o safonau. Mae'n ymddangos bod rhai cyrff wedi camddehongli rhai safonau (e.e. llunio polisi). Mae hyn wedi ei gwneud yn anoddach i asesu goblygiadau'r gwahanol gategorïau o safonau o fewn y Rheoliadau.

9.6 Mae un corff wedi amcangyfrif costau o bron i £2.5 miliwn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau, gyda'r costau uchaf yn cael eu cyflwyno am gydymffurfiaeth â safonau cyflenwi gwasanaethau (£642,000) a safonau gweithredu (£1,792,000). Roedd yr amcangyfrif o gostau i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau yn sylweddol uwch na'r costau a ddarparwyd gan gyrff eraill ar gyfer y safonau hyn, ac yn gyffredinol. Roedd yr amcangyfrif cyffredinol yn cynnwys £976,000 o gostau system a £1,502,000 o gostau staff. Mae'r corff yn cydnabod bod rhai costau eisoes yn cael eu hysgwyddo i sicrhau cydymffurfiaeth â'u cynllun iaith Gymraeg, ond amcangyfrifir bod costau ychwanegol i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg dros £2 filiwn ar sail amcangyfrif o'r costau a gyflwynir. Nid yw'r amcangyfrifon yma ar ben eu hunain wedi ein harwain i gredu bod y safonau yn afresymol gan fod cyrff eraill wedi awgrymu y byddent yn gallu cydymffurfio ar gost llawer is. Dyma enghraifft o sefyllfa lle gallai'r Comisiynydd geisio gwybodaeth bellach ac ystyried a yw'r safon yn rhesymol ar gyfer corff penodol, neu a ddylid cynnwys amod yn yr hysbysiad cydymffurfio i sicrhau bod y safon yn cael ei gosod mewn modd rhesymol.

## 10. Opsiynau: Costau a manteision

10.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried dau opsiwn:

- **Opsiwn 1:** Gwneud dim - byddai'r cyrff yn parhau i weithredu eu Cynlluniau Iaith Gymraeg presennol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, os oes ganddynt un.
- **Opsiwn 2:** Cyflwyno Safonau'r Gymraeg ar gyfer y cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau.

10.2 Mae'r dadansoddiad canlynol yn ystyried y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hyn yn eu tro.

*Costau*

*Opsiwn 1: Gwneud Dim*

10.3 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol o dan yr opsiwn hwn. Ni fyddai angen i'r cyrff hyn gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ond byddai disgwyl iddynt

barhau i weithredu eu Cynlluniau Iaith presennol. Os nad oes gan gorff Gynllun Iaith, yna bydd yn parhau i weithredu heb unrhyw ymrwymiadau na dyletswyddau o ran ei ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg.

10.4 Mae Tabl 1 yn crynhoi'r wybodaeth a dderbyniwyd am y gost o gydymffurfio â'r Cynlluniau Iaith presennol neu o ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

Tabl 1 – costau gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg presennol neu wasanaethau Cymraeg (y flwyddyn). Mae cyfanswm y costau mewn print trwm.

| **Enw'r corff:** | **Costau cydymffurfio** | **Costau staffio** |
|---|---|---|
| Adra (Tai) Cyfyngedig | **£17,000**<br><br>£12,000 – costau cyfieithu<br>£5,000 – costau argraffu | **£100,000** |
| Dienw | **£9,000** – costau cyfieithu | Methu â darparu. |
| Beacon Cymru Group Ltd | £0 | £0 |
| Bron Afon Community Housing Limited | **£2,200**<br><br>£2000 – Costau cyfieithu<br>£200 – Costau hyfforddi | **£11,000** |
| Cadarn Housing Group Limited | **£5,000** | **£15,000** |
| Cardiff Community Housing Association Limited | Dim | Dim |
| ClwydAlyn Housing Limited | **£30,000** | Newidyn |
| First Choice Housing Association Limited | Disgwyl bod dros **£40,000*** | **£40,000** |
| Grŵp Cynefin | **£28,000** – costau cyfieithu | **£35,000** |
| Hendre Limited | **£37,000**<br><br>£22,000 – costau cyfieithu<br>£15,000 – costau argraffu | **£100,000** |
| Tai Hedyn Limited | **£10,000** – costau cyfieithu | **£18,000** |
| Merthyr Tydfil Housing Association | **£5,000** | **£0** |
| Pobl Group Limited** | **£26,000** – costau cyfieithu | **£58,000** |

| | | |
|---|---|---|
| Taff Housing Association Limited | **£0** | **£1,000** |
| Dienw | **£0** | **£0** |
| Dienw | **£10,000** – costau cyfieithu | **£0** |
| Wales and West Housing Association | **£24,000** | **£160,000** |

*roedd yr ymateb yn awgrymu y gallai rhai costau a gyflwynir fod yn gostau yn y dyfodol yn hytrach na chostau cyfredol o gydymffurfio â'r cynllun iaith Gymraeg.
**a elwir nawr fel Codi Group Ltd, a grëwyd drwy uno Linc Cymru a Pobl.

10.5 Mae'r prif gostau sy'n gysylltiedig â darparu Cynlluniau Iaith Gymraeg neu wasanaethau Cymraeg presennol yn cynnwys cyfieithu, staff, hyfforddiant, cyfathrebu ac argraffu.

10.6 Mae'r costau a gyflwynir gan gyrff mewn perthynas â'u Cynlluniau Iaith Gymraeg presennol neu wasanaethau iaith Gymraeg yn amrywio o £0 i £184,000. Dywedodd 3 corff nad oes costau yn gysylltiedig â darparu eu Cynlluniau Iaith Gymraeg presennol na'u gwasanaethau Cymraeg presennol ar hyn o bryd. Y rhesymau a roddwyd oedd bod un corff ddim yn gweithredu cynllun iaith Gymraeg, un arall yn canolbwyntio ei ymdrechion ar baratoi ar gyfer safonau'r Gymraeg, a dywedodd y trydydd nad oedd unrhyw geisiadau ffurfiol am wasanaethau Cymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

10.7 Cyflwynodd 3 chorff gostau o dros £117,000. Costau staff sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r costau hyn, gyda phob un o'r 3 chorff yn nodi costau staff o £100,000 neu fwy.

10.8 Mae'r ymatebion yn awgrymu bod lefel y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir ar hyn o bryd, a chapasiti mewnol y cyrff hyn i ddarparu'r gwasanaethau hynny, yn amrywio'n fawr. Nododd 7 corff nad oes costau staffio ar hyn o bryd, neu ei bod hi'n anodd mesur cost. Mae'n ymddangos bod nifer o'r cyrff hefyd yn dibynnu ar wasanaethau cyfieithu allanol. Rydym yn cydnabod efallai nad oes gan rai cyrff drefniadau digonol mewn lle ar hyn o bryd i gynnig gwasanaethau Cymraeg i'r un lefel ag sy'n ofynnol gan safonau. Gallai cydymffurfio â'r safonau i gwmpasu'r ystod lawn o wasanaethau y maent yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru felly arwain at gostau uwch o ran staffio a system. Mater i'r Comisiynydd yw penderfynu gosod safonau ar gorff ai peidio, ac yna penderfynu pa safonau i'w cynnwys yn hysbysiad cydymffurfio'r corff. Rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r cyrff cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio terfynol a rhaid ystyried ffactorau megis rhesymoldeb a chymesuredd cydymffurfio â safonau ar y cam hwn.

*Opsiwn 2: Cyflwyno Safonau'r Gymraeg ar gyfer y cyrff sydd wedi'u rhestru yn y Rheoliadau.*

10.9 Rydym yn ystyried ei bod yn debygol y bydd costau untro a chostau cylchol ychwanegol i'r cyrff i gydymffurfio â'r safonau.

10.10 Mae Tabl 2 yn crynhoi'r wybodaeth a dderbyniwyd gan gyrff ynghylch cost cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg, fesul categori o safon. Mae cyfanswm y costau mewn print trwm.

| Enw’r Corff | Costau Safonau Cyflenwi Gwasanaeth | Costau Safonau Llunio Polisi | Costau Safonau Gweithredu | Costau Safonau Cadw Cofnodion / Materion Atodol | Cyfanswm Cost cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg |
|---|---|---|---|---|---|
| Adra (Tai Cyfyngedig) (Adra) | Dim costau wedi’u nodi | Dim costau wedi’u nodi | Dim costau wedi’u nodi | Dim costau wedi’u nodi | **Aneglur** |
| Dinenw | Dim costau wedi’u nodi | Dim costau wedi’u nodi | Dim costau wedi’u nodi | Dim costau wedi’u nodi | **Aneglur** |
| Beacon Cymru Group Ltd (Beacon) | Dros £20,000 – costau’r system<br><br>£60,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: Dros £80,000** | £5,000 – costau’r system<br><br>Dim costau staff wedi’u nodi<br><br>**Cyfanswm: £5,000** | Dim costau wedi’u nodi | Dim costau wedi’u nodi | Dros £25,000 – costau’r system<br><br>£60,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: Dros £85,000** |
| Bron Afon Community Housing Limited (Bron Afon) | Dim costau wedi’u nodi | Dim costau wedi’u nodi | Dim costau wedi’u nodi | Dim costau wedi’u nodi | **Aneglur** |
| Cadarn Housing Group Limited (Cadarn) | £3,000 – costau’r system<br><br>£10,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £13,000** | £1,000 – costau’r system<br><br>£2,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £3,000** | £2,000 – costau’r system<br><br>£5,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £7,000** | £1,000 – costau’r system<br><br>£2,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £3,000** | £7,000 – costau’r system<br><br>£19,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £26,000** |
| Cardiff Community Housing Association Limited (CCHA) | £62,000 – costau’r system<br><br>£31,000 – costau staff | Dim costau wedi’u nodi – costau wedi’u cynnwys yn y costau safonau gweithredu | £32,000 – costau’r system<br><br>£365,000 – costau staff | £1,000 costau’r system<br><br>Dim costau staff wedi’u nodi | £95,000 – costau’r system<br><br>£396,000 – costau staff |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm: £93,000** | | **Cyfanswm: 397,000** | **Cyfanswm: £1,000** | **Cyfanswm: 491,000** |
| ClwydAlyn Housing Limited (ClwydAlyn) | £50,000 – costau'r system<br><br>£110,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £160,000** | £3,000 – costau'r system<br><br>£0 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £3,000** | £50,000 – costau'r system<br><br>£200,000- costau staff<br><br>**Cyfanswm: £250,000** | Dim costau wedi'u nodi | £103,000 – costau'r system<br><br>£310.00 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £413,000** |
| First Choice Housing Association (FCHA) | £80,000 – costau'r system<br><br>£45,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £125,000** | £49,000 – costau'r system<br><br>£45,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £94,000** | Dim costau wedi'u nodi – wedi'u cynnwys yn rhywle arall | Dim costau wedi'u nodi – wedi'u cynnwys yn rhywle arall | £129,000 – costau'r system<br><br>£90,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £219,000** |
| Grŵp Cynefin | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol – costau'r system<br><br>£5,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £5,000** | Ddim yn berthnasol – costau'r system<br><br>£5,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £5,000** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hendre Limited (Hafod) | £15,000 – costau'r system<br><br>£100,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £115.00** | Dim costau wedi'u nodi – wedi'u cynnwys yn rhywle arall | Dim costau wedi'u nodi – wedi'u cynnwys yn rhywle arall | Dim costau wedi'u nodi<br><br>Dim costau wedi'u nodi | £15,000 – costau'r system<br><br>£100,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £115,000** |
| Tai Hedyn Limited (Hedyn) | £409,000 – costau'r system<br><br>£26,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm:£435,000** | Ddim yn berthnasol<br><br>£1,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £1,000** | £0 – costau'r system<br><br>£121,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm:£121,000** | £16,000 – costau'r system<br><br>£14,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £30,000** | £425,000 – costau'r system<br><br>£162,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm:£587,000** |
| Merthyr Tydfil Housing Association (MTHA) | £30,000 – costau'r system<br><br>Dim costau wedi'u nodi<br><br>**Cyfanswm: £30,000** | Dim costau wedi'u nodi | Dim costau wedi'u nodi<br><br>£30,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £30,000** | Dim costau wedi'u nodi<br><br>£5.00 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £5,000** | £30,000 – costau'r system<br><br>£35,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £65,000** |
| Pobl Group (Pobl) | £526,000 – costau'r system | Dim costau wedi'u nodi – wedi'u cynnwys yn rhywle arall | £417,000 – costau'r system | £33,000 – costau'r system | £976,000 – costau'r system |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | £116,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £642,000** | Dim costau wedi'u nodi – wedi'u cynnwys yn rhywle arall | £1,375,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £1,792,000** | £11,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £44,000** | £1,502,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £2,478,000** |
| Taff Housing Association Limited (Taff Housing) | £20,000 – costau'r system<br><br>£20,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £40,000** | £10,000 – costau'r system<br><br>£5,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £15,000** | £50,000 – costau'r system<br><br>£20,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £70,000** | Dim costau wedi'u nodi<br><br>Dim costau wedi'u nodi | £80,000 – costau'r system<br><br>£45,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £125,000** |
| Dienw | £105,000 – costau'r system<br><br>£80,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £185,000** | Dim costau wedi'u nodi - wedi'u cynnwys yn rhywle arall | Dim costau wedi'u nodi – costau'n anhysbys<br><br>Dim costau wedi'u nodi – costau'n anhysbys neu wedi'u cynnwys yn rhywle arall | Dim costau wedi'u nodi – costau'n anhysbys<br><br>Dim costau wedi'u nodi – costau'n anhysbys | £105,000 – costau'r system<br><br>£80,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £185,000** |
| Dienw | £201,000 – costau'r system<br><br>£55,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £256,000** | Dim costau wedi'u nodi<br><br>Dim costau wedi'u nodi | £31,000 – costau'r system<br><br>£30,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £61,000** | Dim costau wedi'u nodi<br><br>Dim costau wedi'u nodi | £232,000 – costau'r system<br><br>£85,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £317,000** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tai Wales and West | £8,000 – costau'r system<br><br>£137,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £145,000** | £3,000 – costau'r system<br><br>£8,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £11,000** | £469,000 – costau'r system<br><br>£166,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £635,000** | £1,000 – costau'r system<br><br>£30,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £31,000** | £481,000 – costau'r system<br><br>£341,000 – costau staff<br><br>**Cyfanswm: £822,000** |

*Safonau cyflenwi gwasanaethau*

10.11 Nododd 16 o'r 17 corff a ymatebodd y byddai'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn debygol o gael effaith ar eu hadnoddau; nododd 1 corff na fyddai'r safonau hyn yn cael effaith ar eu hadnoddau gan ddweud nad oeddent yn disgwyl wynebu unrhyw gostau ychwanegol gan eu bod eisoes yn darparu eu holl wasanaethau yn ddwyieithog.

10.12 Nod safonau'r Gymraeg yw adeiladu ar ymrwymiadau a wnaed eisoes mewn Cynlluniau Iaith Gymraeg. Ar wahân i'r safonau gweithredu, ni ddylai'r mwyafrif o'r safonau fod yn gwbl anghyfarwydd i'r cyrff a enwir yn y Rheoliadau hyn.

10.13 Ni chyflwynodd 3 chorff unrhyw gostau. O'r cyrff hynny gwnaed y sylwadau canlynol: nododd un corff ei fod eisoes yn gweithredu'n ddwyieithog ond nododd bryderon ynghylch costau ychwanegol posibl sy'n ymwneud â chyrsiau a sicrhau bod apiau yn Gymraeg; mae corff arall yn rhagweld costau cychwynnol a pharhaus cymedrol i sylweddol ar gyfer cydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â gwasanaethau ffôn, apiau, a sgwrsio ar-lein, yn ogystal â llwyth gwaith cynyddol. Nododd trydydd corff gostau cyfieithu ac argraffu parhaus ychwanegol posibl, yn enwedig os nad yw dewisiadau iaith cwsmeriaid yn cael eu cofnodi, yn ogystal â chostau ar gyfer cynnwys cyfieithu mewn systemau TG a chostau staffio.

10.14 Cyflwynodd 13 corff gostau cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau. Roedd y costau ychwanegol amcangyfrifedig ar gyfer cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, ar y cyfan, ymhlith yr uchaf o'r pedwar categori o safonau (cyflenwi gwasanaethau; llunio polisi; gweithredu; cadw cofnodion a materion atodol). Roedd y costau'n amrywio o £13,000 i £642,000, gyda 3 chorff yn nodi cost amcangyfrifedig o dros £250,000 i gydymffurfio â'r categori hwn o safonau yn unig. Mae hyn er gwaetha'r ffaith mai'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yw'r categori safonau sy'n debycach i'r ymrwymiadau a wneir mewn Cynlluniau Iaith Gymraeg. Mae'r amrediad o ran costau yn debygol o adlewyrchu gwahaniaethau ym maint a chylch gwaith y cyrff dan sylw, lefel y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir ar hyn o bryd yn ogystal â gwahaniaethau tebygol yn y dehongliad o'r cwestiynau yn yr holiadur.

10.15 Roedd nifer o'r cyrff a ddarparodd wybodaeth yn rhagweld yr angen am fuddsoddiad ychwanegol mewn cyfieithu, TG a staff er mwyn cydymffurfio â safonau. Mae'r rhan fwyaf o gyrff yn rhagweld costau o ran system a staff (untro a pharhaus). Disgwylir i rai costau system fod yn gostau untro neu'n gostau trosiannol (e.e. uwchraddio TG, cyfieithu templedi, swyddogaethau dwyieithog ar gyfer pyrth), tra bo costau parhaus yn ymwneud yn bennaf â chyfieithu (e.e. cyfieithu ar y pryd ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus, gohebiaeth bwrpasol) a chostau staff (e.e. amser ychwanegol gan staff presennol a recriwtio staff ychwanegol megis asiantau gwasanaeth cwsmeriaid dwyieithog, a chyfieithwyr i gynorthwyo â chydymffurfiaeth). Nododd rhai cyrff ei bod

yn anodd amcangyfrif costau ar gyfer y dyfodol oherwydd nad ydynt eto'n gwybod pa safonau penodol fydd yn berthnasol nac o dan ba amgylchiadau. Hefyd, cyfeiriodd un corff at fewnrwyd yn ei ymateb, ond ni fyddai hyn yn berthnasol i'r categori hwn o safonau.

10.16 Rhoddodd 5 corff dadansoddiad o gostau staff (parhaus) a chostau cyfieithu (trosiannol a pharhaus). Roedd y rhain yn cynnwys costau ar gyfer cyfieithu dogfennau, polisïau a llythyrau; cyfieithu ar y pryd / olynol ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus; negeseuon cyfryngau cymdeithasol, cynhyrchu fideos dwyieithog, arwyddion a deunydd ysgrifennu dwyieithog yn ogystal â dylunio gwefannau dwyieithog. Ni chyflwynodd pob un o'r 5 corff gostau ar gyfer y gweithgarwch hyn. Roedd costau cyffredin ar draws y 5 ymateb yn cynnwys costau cyfieithu ar gyfer dogfennau, gohebiaeth a pholisïau yn amrywio o £10,000 i £75,000; cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu olynol ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus (£5,000 i £67,000), a chostau arwyddion a deunyddiau ysgrifennu (£5,000 i £40,000). Y costau mwyaf a amcangyfrifir yw ar gyfer cyfieithu ceisiadau cynllunio (£270,000 i £325,000), sy'n egluro'r costau uchel gan 2 gorff. O dan y safonau, dim ond wrth osod arwyddion newydd neu wrth ddiwygio arwyddion sy'n bodoli eisoes y bydd angen arwyddion Cymraeg, felly byddai cost arwyddion yn cael ei wasgaru dros nifer o flynyddoedd a dim ond pan fydd angen adnewyddu arwyddion y byddai hynny'n ofynnol beth bynnag. Yn ogystal, mae'r safon hunaniaeth gorfforaethol wedi ei rhannu'n ddwy safon ar wahân yn y Rheoliadau i gydnabod nad oes gan rai cyrff hunaniaeth gorfforaethol Gymraeg ar hyn o bryd. Yn hytrach, bydd yn ofynnol iddynt ymgorffori hunaniaeth Gymraeg wrth greu neu ddiwygio eu hunaniaeth gorfforaethol.

10.17 Rydym yn cydnabod bod amgylchiadau pob corff yn wahanol, ac y gall fod goblygiadau amrywiol o ran cost yn dibynnu ar natur y cyrff. Rydym hefyd yn cydnabod y gallai rhai cyrff wynebu costau untro uwch ar y dechrau os oes llai o ddarpariaethau Cymraeg ar waith ganddynt. Mae'r Rheoliadau wedi'u drafftio gyda'r bwriad o sicrhau bod hyblygrwydd i'r Comisiynydd osod safonau sydd, yn ei barn hi, yn rhesymol ac yn gymesur i gorff penodol. Rydym yn disgwyl y bydd y Comisiynydd, wrth ymgynghori â chyrff, yn ceisio gwybodaeth bellach er mwyn sefydlu a yw safon yn rhesymol ar gyfer gorff penodol, neu a ddylid cynnwys amod yn yr hysbysiad cydymffurfio i sicrhau bod y safon yn cael ei gosod mewn modd rhesymol. Erbyn hynny, bydd cyrff yn gliriach ynghylch pa safonau sy'n debygol o gael eu gosod arnynt. Bydd hyn yn galluogi cyrff i ddarparu asesiad llawnach a manylach o'r effaith ariannol fel rhan o unrhyw ymgynghoriad gan y Comisiynydd.

_Safonau llunio polisi_

10.18 Awgrymodd 16 o'r 17 corff a ymatebodd y byddai'r Safonau Llunio Polisi yn debygol o gael effaith ar eu hadnoddau; nododd 1 corff y byddai'r

safonau hyn yn debygol o beidio â chael effaith ar eu hadnoddau; ni wnaethant ddarparu unrhyw gostau na sylwadau i gefnogi eu hymateb.

10.19 Ni chyflwynodd 5 corff arall unrhyw gostau penodol a chyfeiriodd 4 chorff at eu hymateb i gostau ar gyfer categori arall o safonau. Nododd 2 gorff y byddai costau yn ddibynnol ar y safonau terfynol ac y gallai amser staff ychwanegol greu costau a chymryd cryn dipyn o amser staff oherwydd nifer y polisïau. Hefyd, nododd un corff y byddai angen i staff neilltuo mwy o amser i gynnal Asesiadau Effaith. Yn ôl corff arall nid yw'n ystyried y bydd y safonau hyn yn gofyn am unrhyw fuddsoddiad 'system', ond bod hyn yn dal yn anhysbys. Cyfeiriodd 4 corff na gyflwynodd costau at gyfieithu polisïau a thempledi yn y lle cyntaf, tra bod corff arall o'r farn y byddai angen sesiynau gwybodaeth ar gyfer 396 aelod o staff er mwyn sicrhau dealltwriaeth.

10.20 Yn gyffredinol, roedd cyrff a gyflwynodd gostau yn amcangyfrif y byddai'r costau rhwng £1,000 a £15,000 (costau staff a system). Mae un corff wedi amcangyfrif costau o £94,000 (costau staff a systemau), sydd llawer yn uwch na chyrff eraill. Ni wnaethant unrhyw sylw i gefnogi eu costau.

10.21 Nododd 4 corff a gyflwynodd gostau bod eu costau yn ymwneud â chyfieithu polisïau. Roedd un corff o'r farn y byddai hyn yn gost barhaus, gydag un arall yn nodi costau system ond yn methu ag amcangyfrif costau staff. Roedd un corff o'r farn y byddai cynnydd a chostau parhaus yn y dyfodol i adlewyrchu'r adolygiad presennol ynghyd â mwy o arferion ac adnoddau cysylltiedig i roi ystyriaeth gydwybodol. Nododd corff arall mai dim ond costau staff oedd yn gysylltiedig â chwblhau Asesiadau Effaith ar y Gymraeg.

10.22 Ni ddylai cydymffurfio â safonau llunio polisi ynddynt eu hunain olygu bod rhaid i gorff gyfieithu polisïau i'r Gymraeg. Mae'r dyletswyddau a ddaw yn sgil y safonau hynny yn ymwneud ag ystyried effaith polisi ar y Gymraeg, yn hytrach nag iaith y ddogfen bolisi ei hun.

10.23 Byddai safonau llunio polisi, pe baent yn cael eu cymhwyso i gorff, yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ystyried effaith polisïau'r corff ei hun ar y Gymraeg. Gallai hyn gynnwys polisi sy'n ymwneud â gwasanaeth a ddarperir i ddefnyddwyr gwasanaeth neu bolisi sy'n ymwneud â staff. Er enghraifft, byddai angen polisi sy'n ymwneud â chontractau gwasanaethau neu hyfforddiant staff er mwyn ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg.

10.24 Mae gan y Comisiynydd yr hyblygrwydd i benderfynu a ddylid gosod safonau ar gorff ai peidio, ac yna penderfynu pa safonau i'w cynnwys yn hysbysiad cydymffurfio'r corff. Gall y Comisiynydd osod safon mewn rhai amgylchiadau ond nid mewn amgylchiadau eraill. Rhaid i'r Comisiynydd

ymgynghori â’r cyrff cyn rhoi hysbysiadau cydymffurfio terfynol a rhaid iddo ystyried a fyddai’n rhesymol a chymesur gosod safonau llunio polisi.

*Safonau gweithredu*

10.25 Nododd 15 o’r 17 corff a ymatebodd y byddai’r Safonau Gweithredu yn debygol o gael effaith ar eu hadnoddau; nododd 1 corff na fyddai’r safonau hyn yn cael effaith ar eu hadnoddau gan ei fod eisoes yn cydymffurfio â’r safonau arfaethedig. Bu un corff arall ddim nodi a fyddai effaith debygol ar adnoddau ond cyflwynodd costau system a staff yn ei ymateb.

10.26 Ni chyflwynodd 7 corff unrhyw gostau penodol. Nododd un corff y gall y gost o ddarparu hyfforddiant/addysg ddwyieithog ar gyfer rhai cyrsiau arbenigol fod yn sylweddol, ond nid oedd modd rhoi swm penodol ar gyfer hyn hyd nes bod mwy o eglurder ynghylch addysg a hyfforddiant staff. Mae corff arall yn nodi bod effaith cost yn debygol o fod yn gymedrol, ac yn rhagweld y bydd angen diweddaru a gwella systemau presennol (e.e. mewnrwyd a phorth ymgeisio am swyddi ar-lein) a fydd yn arwain at gostau uwch. Fodd bynnag, nododd y byddai hyn yn dibynnu ar yr union safonau sydd wedi’u gosod arno.

10.27 Nododd un corff bod Microsoft 365 ar gael yn Gymraeg ond nad oes modd darparu meddalwedd arall, megis cynnyrch rheoli cynnal a chadw, yn Gymraeg ac felly nad oedd modd nodi cost system yn gysylltiedig â hyn. Gellir defnyddio cynnyrch eraill, megis ei system rheoli tai, yn Gymraeg gyda meddalwedd cyfieithu ond nid oedd yn sicr a fyddai’r math hwn o gyfieithu awtomatig yn dderbyniol o dan y safonau, na beth fyddai’r costau cysylltiedig. Nododd hefyd costau staff sy’n gysylltiedig â phrosiect ar gyfer gweithredu darpariaeth Gymraeg.

10.28 Roedd un corff yn cael trafferth darparu costau ond nododd fod costau’r system yn debygol o fod yn sylweddol gyda chostau staff yn gysylltiedig â chyrsiau sy’n ymwneud â rhoi safonau gweithredu ar waith.

10.29 Cyfeiriodd 3 corff at eu hymateb i gostau ar gyfer safonau eraill. Nododd dau o’r cyrff hynny y byddai’r safonau hyn yn debygol o gael effaith ar gostau staffio, gydag un yn awgrymu y byddai costau ychwanegol ar gyfer codiadau cyflog i staff presennol sy’n siarad Cymraeg weithredu fel cyfieithwyr/prawfddarllenwyr. Roedd yr un corff hefyd o’r farn y byddai effaith debygol ar ddarparu gwasanaethau i denantiaid. Ni gyflwynodd y trydydd corff unrhyw sylwadau pellach.

10.30 Cyflwynodd 9 corff gostau. Roedd y costau ychwanegol amcangyfrifedig ar gyfer cydymffurfio â safonau gweithredu, ynghyd a safonau cyflenwi gwasanaethau, ymhlith yr uchaf o’r pedwar categori o safonau (cyflenwi gwasanaethau; llunio polisi; gweithredu; cadw cofnodion). Gellid priodoli hyn yn rhannol i gyflwyno safonau gweithredu, sy’n canolbwyntio ar ddefnydd mewnol o’r Gymraeg o fewn y corff. Nid yw ymrwymiadau

tebyg fel arfer yn rhan o Gynlluniau Iaith Gymraeg felly mae'r costau cychwynnol i gydymffurfio â'r safonau newydd hyn i'w disgwyl.

10.31 Roedd y costau a gyflwynwyd yn amrywio o £7,000 i dros £1.7 miliwn. Nododd un corff bod costau, a allai fod yn gostau trosiannol, yn ymwneud â hyfforddi staff a diweddaru gweithdrefnau gweithredol. Mae corff arall yn ystyried mai'r ffordd fwyaf effeithlon o fodloni'r safonau fyddai drwy gyflogi siaradwyr Cymraeg a fyddai'n arwain at gostau staff yn ogystal â chostau cyfle ar gyfer hyfforddi staff. Nododd hefyd gostau ychwanegol i addasu neu gaffael systemau sy'n gallu sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau arfaethedig. Er bod yr amcangyfrif o'r gost uchaf yn allanolyn (mae dros £1 miliwn yn uwch na'r amcangyfrif uchaf nesaf o'r gost), roedd cyrff eraill wedi nodi cost cydymffurfio sylweddol. Roedd 6 o'r 9 corff a gyflwynodd gostau yn amcangyfrif costau o £250,000 neu lai.

10.32 Bu sawl corff a gyflwynodd gostau tynnu sylw at gostau parhaus a throsiannol sy'n ymwneud â hyfforddi staff, recriwtio, ac uwchraddio systemau TG i fodloni Safonau'r Gymraeg. Mae'r costau a nodwyd yn cynnwys codiad cyflog ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg i weithredu fel cyfieithwyr neu prawfddarllenwyr, ôl-lenwi neu oramser i alluogi hyfforddiant i staff, a chaffael systemau Adnoddau Dynol neu ddysgu dwyieithog. Roedd costau cyfieithu hefyd yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro, gan gwmpasu dogfennau, polisïau, cyrsiau a chyfathrebiadau, ochr yn ochr â llwyth gwaith ychwanegol ar gyfer timau Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygu, a Thechnoleg. Nododd sawl corff hyfforddiant parhaus i uwchsgilio staff ac i gefnogi cydymffurfiaeth.

10.33 Amcangyfrifodd un corff gost o £60,000 am ddatblygu mewnrwyd ddwyieithog, gyda chostau cyfieithu ychwanegol o flwyddyn i flwyddyn. Rhagwelodd un arall dyraniad sylweddol o adnoddau, gan amcangyfrif 25% o adnoddau dynol ac amser staff cysylltiedig ar gost barhaus o £1.29 miliwn. Gofynnodd un sefydliad am eglurder ynghylch a fyddai safonau'n berthnasol i lwyfannau megis GwerthwchiGymru neu wybodaeth gynllunio, tra bod sefydliad arall yn rhagweld costau ar gyfer recriwtio swyddog dysgu a datblygu dwyieithog.

*<u>Safonau cadw cofnodion a materion atodol</u>*

10.34 Nododd 5 o'r 17 corff a ymatebodd nad oedd unrhyw oblygiadau o ran adnoddau o ganlyniad i orfod cydymffurfio â safonau cadw cofnodion neu safonau sy'n ymdrin â materion atodol. Dim ond un o'r rhain a roddodd sylwadau i gefnogi ei ymateb, gan nodi nad yw'n rhagweld unrhyw gost ychwanegol fawr cyn belled ag y gellir ymgorffori cwynion am safonau'r Gymraeg yn ei broses gwyno arferol.

10.35 Nododd 2 gorff bod y costau yn anhysbys ar hyn o bryd. Mae un corff yn gobeithio na fydd y safonau cadw cofnodion na'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol yn gofyn am unrhyw fuddsoddiad o ran 'system' ond nododd ei fod yn rhagweld yr angen i ddiweddaru a gwella systemau

presennol a fydd hyn yn cynyddu costau, ac roedd yn rhagweld llwyth gwaith ychwanegol. Holodd un corff a oes lle i edrych ar sut y gellid cysylltu monitro â'r drefn bresennol ar gyfer adroddiadau rheoleiddio.

10.36 Nododd un corff bod costau yn cael eu cynnwys o dan safonau eraill. Bu un corff nodi effaith tebygol ond peidio â chyflwyno unrhyw gostau neu sylwadau mewn perthynas â'r safonau hyn. Mae corff arall wedi adnabod costau staff parhaus (h.y. tîm sicrwydd) a chostau cydymffurfio a monitro (h.y. adnoddau adrodd, arolygu ac archwilio) ond nid oedd yn gallu mesur y costau hynny.

10.37 Cyflwynwyd costau gan 8 corff, yn amrywio o rhwng £0 i £44,000. Nododd 5 o'r 8 corff hynny gostau o £5,000 neu lai. Nododd 3 corff y byddai'r costau ychwanegol hyn yn ymwneud ag amser staff, er enghraifft, i fonitro a goruchwylio cydymffurfiaeth. Mae corff arall hefyd yn disgwyl y bydd angen diweddaru rhai systemau cadw cofnodion.

10.38 Cyflwynodd 3 o'r 8 corff gostau rhwng £30,000 a £41,000. Mae un o'r cyrff hyn yn rhagweld y bydd angen 10% o amser staff y tîm sicrwydd fel cost barhaus yn ogystal â £32,000 o gostau parhaus ar gyfer adnoddau adrodd, arolygon ac archwilio a £1,000 o gostau parhaus ar gyfer archwilio allanol neu ymgynghorwyr. Mae costau corff arall yn gysylltiedig â chynnydd disgwyliedig mewn adnoddau i werthuso, cefnogi a monitro cydymffurfiaeth. Nododd y trydydd corff gostau parhaus o ran cydweithwyr o £15,000 ar gyfer goruchwylio a £1,000 o gostau cydymffurfio a monitro parhaus ar gyfer adnoddau adrodd, a chwestiynau arolwg ychwanegol. Yn ogystal, nododd gostau cydymffurfio a monitro trosiannol ar gyfer archwiliad posibl yn y dyfodol (£9,000) a chefnogaeth ymgynghorol (£5,000).

*Costau ychwanegol*

10.39 Ni ddarparodd 6 o'r 17 corff unrhyw sylwadau mewn perthynas â chostau ychwanegol.

10.40 Rhoddodd 6 corff grynodeb o'r costau cyfredol a / neu'r gost o gydymffurfio â'r safonau:

| Enw'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig | Costau cyfredol | Costau cydymffurfio â safonau |
|---|---|---|
| Pobl | £84,000 | **£2,478,000 – Cyfanswm**<br><br>£220,00 – costau trosiannol<br><br>£2,258,000 – costau parhaus |
| Hedyn | £28,000 | **£587,000 – Cyfanswm**<br><br>£10,000 – costau trosiannol<br><br>£577,00 – costau parhaus |
| FCHA | - | £125,000 |
| Grŵp Cynefin | - | £1,000 – parhaus |
| MTHA | £5,000 y flwyddyn | £65,000 |
| Cadarn | - | **£13,000 – Cyfanswm**<br><br>£8,000 – costau trosiannol<br><br>£5,000 – costau parhaus |

10.41 Mae costau un corff yn ymwneud ag amser a chost hyfforddiant iaith Gymraeg ac mae costau trosiannol corff arall yn ymwneud â chostau cychwynnol uwchraddio systemau a hyfforddi staff gyda chostau parhaus disgwyliedig ar gyfer cynnal gwasanaethau dwyieithog.

10.42 Nododd un corff mai amcangyfrifon oedd y costau a gyflwynwyd (heb ddarparu crynodeb) a'u bod yn seiliedig ar adolygiad bod yr holl safonau i'w cymhwyso ar unwaith.

10.43 Ni ddarparodd 4 corff arall grynodeb o'r costau; yn lle hynny, dim ond sylwadau a ddarparwyd ganddynt. Nododd un corff ei fod yn y broses o ddisodli ei system rheoli tai ac yn adeiladu system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd gyda disgwyl i'r costau fod yn sylweddol. Ni chafodd costau i sicrhau bod y system yn ddwyieithog eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

10.44 Mae corff arall o'r farn y byddai'r gost gysylltiedig yn anghymesur â'r ymwybyddiaeth bresennol o'r galw am wasanaethau neu ohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, gan nodi y byddai'r dull rhagweithiol o ymdrin â

gwasanaethau Cymraeg yn afresymol o ran cost ac yn ffafrio dull gweithredu 'yn ôl y gofyn'.

10.45 Mae un corff yn rhagweld gwelliannau i brosesau a systemau presennol, gan arwain at gostau ychwanegol a mwy o ymrwymiadau o ran amser. Mae hefyd yn rhagweld cynnydd yn y llwyth gwaith ar draws nifer o feysydd gwasanaeth, ond nid yw'n glir beth yw'r union faint ar hyn o bryd, sy'n awgrymu y gallai cyfyngiadau cyllidebol presennol olygu bod angen dyrannu neu fuddsoddi rhagor o adnoddau. Nododd y corff hefyd y gallai fod effaith bellach ar gostau os yw'r safonau'n berthnasol i is-gwmnïau.

10.46 Nododd un corff nad oedd yn rhagweld costau sylweddol (yn enwedig ar ddechrau'r broses o weithredu) ond ei bod yn anodd nodi unrhyw gostau ychwanegol hyd nes eu bod yn dechrau gweithredu'r safonau yn ymarferol.

10.47 Yn ogystal â'r costau cydymffurfio a ysgwyddir gan y cyrff, mae'n debygol hefyd y bydd y Comisiynydd a Thribiwnlys y Gymraeg yn wynebu costau am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r safonau.

10.48 Yn ogystal â'r costau uchod, byddai angen i gyrff a'r Comisiynydd ddyrannu adnoddau os ydynt yn ymwneud ag achos sydd wedi'i gyfeirio at y Tribiwnlys. Pe bai corff yn gwneud apêl i'r Tribiwnlys byddai'n rhaid iddo ddyrannu adnoddau i'r broses honno. Mae hyn yn debygol o fod yn adnoddau o ran staff sy'n gweithio ym maes cydymffurfio â safonau'r cyrff, yn ogystal ag arbenigedd cyfreithiol. Yn ystod 2024-25 cafodd y Tribiwnlys 3 chais; ni chafwyd ceisiadau gan gyrff oedd yn dymuno gwneud apêl yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd yn ei hysbysiad cydymffurfio iddynt.

Cartrefi Cymunedol Cymru

10.49 Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiad i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 drwy ychwanegu Cartrefi Cymunedol Cymru at Atodlen 6 y Mesur ac yna i Reoliadau Rhif 2.

10.50 Gwahoddwyd Cartrefi Cymunedol Cymru i ddarparu gwybodaeth i helpu i lywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn ond ni chyflwynodd ymateb. O ganlyniad, nid yw effaith ariannol debygol y Rheoliadau ar Gartrefi Cymunedol Cymru yn hysbys ar hyn o bryd. Rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â chyrff cyn cyhoeddi hysbysiad cydymffurfio terfynol a rhaid ystyried ffactorau fel rhesymoldeb a chymesuredd cydymffurfio â safonau ar y cam hwn.

*Manteision*

*Opsiwn 1: Gwneud Dim*

10.51 Dyma'r opsiwn sylfaenol ac nid oes manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r sefyllfa bresennol sef cydymffurfio â Chynlluniau Iaith Gymraeg (lle mae gan gyrff gynllun). Byddai'r Comisiynydd yn parhau â'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth â chynlluniau. Os nad oes gan gorff Gynllun Iaith, yna bydd yn parhau i weithredu heb unrhyw ymrwymiadau na dyletswyddau o ran ei ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg.

*Opsiwn 2: Cyflwyno Safonau'r Gymraeg*

10.52 Amlinellir nodau'r safonau ym mharagraff 4.4 uchod. Ar hyn o bryd (a hyd nes bod y Comisiynydd wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio i gorff), mae ond yn bosibl amlinellu'r manteision a ddisgwylir yn sgil y safonau yn gyffredinol gan nad yw'n hysbys pa safonau y byddai disgwyl i bob corff gydymffurfio â nhw.

10.53 Bydd gosod cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau o dan y system safonau naill ai'n eu symud o system y Cynlluniau Iaith Gymraeg, a ddaeth i rym o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, i'r system safonau a gyflwynwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, neu'n helpu i ffurfioli ac adeiladu ar drefniadau sydd eisoes ar waith i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael. Bydd hefyd yn sicrhau bod y cyrff hyn o dan yr un system reoleiddio â chyrff sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y rheoliadau safonau presennol.

10.54 Bydd y safonau'n nodi'n glir beth y mae angen i'r cyrff ei wneud o ran y Gymraeg, fel bod pobl yn gwybod beth i'w ddisgwyl o ran gwasanaethau Cymraeg. Bydd yr eglurder hwn, ar gyfer y cyhoedd a'r cyrff, yn helpu i sicrhau bod y safonau'n gallu cael eu gorfodi'n effeithiol a dylai sicrhau bod y cyrff yn glir ynghylch y lefel o wasanaeth y mae angen iddynt ei darparu yn Gymraeg. Ni all y Comisiynydd ond pennu safonau sy'n rhesymol ac yn gymesur ar gyfer pob corff unigol.

10.55 Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw bwerau gorfodi o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993; dim ond o dan Fesur y Gymraeg. Mae'r drefn orfodi y darperir ar ei chyfer o dan y system safonau yn caniatáu dull mwy effeithiol o ymdrin ag achosion honedig o ddiffyg cydymffurfiaeth er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn ddiweddar, mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno dull o gyd-reoleiddio sy'n golygu gweithio'n agosach ac yn fwy rhagweithiol gyda chyrff i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.

10.56 Mae'r Comisiynydd wedi gosod safonau'r Gymraeg ar dros 130 o gyrff cyhoeddus hyd yn hyn. Mae'r Comisiynydd hefyd yn comisiynu arolwg blynyddol o siaradwyr Cymraeg. Yn ôl canlyniadau'r arolwg blynyddol diweddaraf fel yr adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol 2024-25:

- Roedd 79% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod fel arfer yn gallu delio â chyrff cyhoeddus yn y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny,

- Roedd 75% o'r ymatebwyr o'r farn bod y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gyrff cyhoeddus yn gwella (cynnydd o 1% ers adroddiad 2023-24).
- Roedd 75% o'r ymatebwyr yn dweud bod cyrff cyhoeddus yn gofyn iddynt ym mha iaith yr hoffent ddelio â nhw.
- Roedd 70% o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os yw sefydliadau'n ei gwneud yn glir eu bod ar gael (cynnydd o 5% ers adroddiad 2023-24).

## 11. Casgliad

11.1 Mae'r ansicrwydd presennol ynghylch pa safonau y bydd angen i bob corff gydymffurfio â nhw, ac o dan ba amgylchiadau, yn golygu nad yw'n bosibl llunio asesiad cadarn ar hyn o bryd o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau.

11.2 Rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg ymgynghori â'r cyrff cyn rhoi'r hysbysiadau cydymffurfio terfynol, a bydd ffactorau megis pa mor rhesymol a chymesur yw safonau unigol yn cael eu hystyried yn y cam hwn. Fel rhan o'r broses hon, gallai'r cyrff gyflwyno asesiad o'r costau a'r manteision cymharol sy'n gysylltiedig â'r safonau. Gallai'r Comisiynydd ystyried hyn wrth benderfynu a yw'r safonau'n rhesymol ac yn gymesur.

## 12. Dyletswyddau

*<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</u>*

12.1 Mae'r Rheoliadau yn cefnogi amcanion ac egwyddorion llesiant Llywodraeth Cymru, yn enwedig *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - sy'n gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg*. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Bydd y Rheoliadau yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg wrth i bobl ymdrin â'r cyrff a enwir yn y Rheoliadau.

*<u>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn</u>*

12.2 Ystyriwyd Cynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru, a daethpwyd i'r casgliad nad yw'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar hawliau plant a phobl ifanc.

*<u>Y Gymraeg</u>*

12.3 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a ddaeth i'r casgliad y byddai'r Rheoliadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac na fyddant yn arwain at drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

*<u>Cydraddoldeb</u>*

12.4 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau. Nid ydynt yn codi unrhyw faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol. Nid oes unrhyw effaith negyddol ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig. Bydd y Rheoliadau'n caniatáu i siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau Cymraeg gan y cyrff hyn, a bydd y gwasanaethau hynny ar gael i bob defnyddiwr gwasanaeth p'un a ydynt mewn grwpiau gwarchodedig ai peidio.

## 13. Asesu'r Gystadleuaeth

13.1 Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau gael unrhyw effaith ar allu busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol i gystadlu.

## 14. Adolygu ar ôl gweithredu

14.1 Mae'r Mesur yn darparu cyfleoedd i'r Comisiynydd ddwyn sylw Gweinidogion Cymru at addasrwydd y safonau a bennwyd yn y Rheoliadau. Gall y Comisiynydd gyflwyno argymhellion neu roi cyngor i Weinidogion Cymru (adran 4 o'r Mesur) a allai argymell yn uniongyrchol ddiwygio'r Rheoliadau. Hefyd gallai Gweinidogion Cymru benderfynu ar sail cyngor a roddir gan y Comisiynydd y byddai'n briodol adolygu'r safonau. Rhaid iddynt roi sylw dyledus i unrhyw argymhellion neu gyngor ysgrifenedig y mae'r Comisiynydd yn eu rhoi wrth arfer y swyddogaeth y mae'r argymhelliad neu'r cyngor yn ymwneud â hi.

14.2 Mae Adran 18 y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd baratoi adroddiad blynyddol. Rhaid i'r adroddiad hwnnw gynnwys adolygiad o faterion sy'n berthnasol i'r Gymraeg (ymhlith materion eraill) a gallai hefyd gynnwys unrhyw faterion eraill y mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn briodol eu cynnwys.

14.3 Yn ogystal, mae gan y Comisiynydd y pŵer i gynnal Ymchwiliad Safonau (adrannau 61 a 62 o'r Mesur) a all ystyried pa safonau a ddylai, neu a ddylai barhau i fod yn benodol gymwys i berson, p'un a yw'r safonau eisoes wedi'u pennu gan Weinidogion Cymru ai peidio. Ar ôl cynnal Ymchwiliad Safonau, rhaid i'r Comisiynydd lunio Adroddiad Safonau a darparu copi ohono i Weinidogion Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i adroddiad o'r fath yn unol ag adran 66 o'r Mesur.

14.4 Yn amodol ar eu hysbysiadau cydymffurfio, bydd cyrff yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n amlinellu sut y maent wedi cydymffurfio â'r safonau a osodwyd arnynt. Gallai'r adroddiadau blynyddol hyn hefyd godi materion yn ymwneud ag addasrwydd y safonau a bennwyd.